# Cyngor Cymuned Ganllwyd.

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mai 8fed 2019.

**Presennol.**

Cyng S.Roberts, Cyng D.Morris, Cyng G.Jones,Cyng ,Cyng C.Dixon.

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Hughes.

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 10fed Ebrill 2019.**

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Morris yn cael ei eilio gan Cyng Dixon.

**Materion yn codi-nid ar yr agenda.**

**Dim**

**Ysgol Gynradd Ganllwyd.**

Adroddodd Cyng Dixon fod Rhybudd Cyhoeddus yn y Cambrian News (4.4.19) yn ymwneud a pherchnogaeth yr Ysgol a hawliau'r Cyngor Sir i werthu y safle os nad oedd unrhyw un a hawliad ar dir yr ysgol yn dod ymlaen cyn y 12.7.2019.

Mae'r clerc wedi siarad â Mrs Lowri Roberts Cyngor Gwynedd sydd wedi anfon e-bost i'r cyngor yn cadarnhau'r broses y mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gydymffurfio â hi er mwyn gwerthu'r eiddo.

Nid oedd y Cynghorydd Jenkins yn bresennol i ddiweddaru'r cyngor o ran yr adolygiad barnwrol posibl ynghylch gwerthu'r ysgol a'r defnydd tebygol o arian a godwyd.

Mae'r cyngor cymuned yn sylweddoli nad yw mewn sefyllfa i fabwysiadu'r ysgol a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio at ddibenion addysgol ond hoffai'r cynghorwyr i'r Cyngor Sir roi cyfle i aelod addas o'r gymuned ddefnyddio'r safle i'r diben hwn o flaen unrhyw werthiant o'r eiddo.

Y Clerc i gysylltu â Cyng Jenkins a gofyn iddo siarad â'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r uchod.

**Biniau halen.**

Yn dilyn cyfarfod y cynghorau cymuned gyda'r Adran Briffyrdd, derbyniodd y cyngor lythyr a map yn amlygu lleoliad y biniau halen yn y gymuned.

Nodwyd nad oedd 3 o'r biniau presennol wedi eu cynnwys ar y map.

Penderfynodd y cyngor cymuned y byddent yn hoffi i'r adran priffyrdd raeanu'r llwybr canlynol pe bai amodau rhewi tymor hir:

Bont Ty’n y Groes ar hyd ffordd Maes yr Eglwys Wen (Berach Rd) i Hermon a wedyn am Abergeirw cyn gorffen yn Bronaber.

Clerc i gyfarfod y Cyngor Sir cyn y cyfarfod nesaf.

**Materion gwrth cymdeithasol yn maes parcio Ty’n y Groes a’r ardaloedd cyfagos.**

Bydd Cyng Dixon a’r clerc yn cyfarfod a CNC Dydd Llun 20/5/19 ynglyn y mater yma.

Rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

**Materion ariannol.**

**Cyson Banc: Ebrill 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau’r Mis:** | **£5602.33** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Ad daliad TAW** | **£429.01** |
| | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **E.W.Owen (cyfrifydd)** | **£192.00** |
| **Un llais Cymru** | **£29.00** |
| **Printer ink (D.Owen)** | **£28.39** |
| **Yn y Banc diwedd mis** | **£5681.95** |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

**Awdit 2019.**

Bydd cyfrifon y cyngor yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio'n fewnol ar yr 20fed o Fai 2019.

Cyn cyflwyno'r cyfrifon archwiliodd aelodau'r cyngor gynnwys dogfen archwilio BDO 2018-19 a chytunwyd bod y wybodaeth yn y ddogfen yn adlewyrchu cyfrifon y cyngor yn gywir ar gyfer y cyfnod hwn.

Llofnodwyd y ddogfen gan y cadeirydd a'r clerc i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

**Llythyrau & E-bost.**

Gair o ddiolch gan Bwyllgor y Sioe am y rhodd dderbyniwyd gan y Cyngor.